# Cynllunio a chreu cynlluniau gwallt a siapiau yn y gwallt gan ddefnyddio technegau uwch gyda chliper a rasel

## Trosolwg

Mae’r safon yma yn cydfodoli â, **SKAHDBRBNST1 Gweithredu, a chynnal arferion gwaith diogel, glanwaith ac effeithiol. a SKAHDBRBNS1 Ymgynghori, asesu, cynllunio a pharatoi ar gyfer gwasanaethau Gwallt, Barbro, Harddwch, Ewinedd, Lles a Holistig**. Mae’r safon yma’n ymwneud â rhywun o’r proffesiwn trin gwallt yn darparu gwasanaethau eillio ar yr wyneb, pen a’r gwddf gan ddefnyddio rasel syth gyda llafn a ddefnyddir unwaith. Bydd gofyn i chi hefyd werthuso ac adfyfyrio ar ôl y gwasanaeth er mwyn ei wella’n barhaus. Bydd angen i ddefnyddwyr y safon yma sicrhau bod eu harferion yn adlewyrchu’r wybodaeth, y polisïau, y gweithdrefnau a’r canllawiau arferion gorau diweddaraf. Caiff defnyddwyr y safon yma eu cynghori i fod yn ymwybodol o, a chydymffurfio â, gofynion cymorth cyntaf, yn unol â deddfwriaeth a pholisïau a gweithdrefnau.

* *

**Prif ddeilliannau'r safon yma yw:**

1. creu cynlluniau gwallt cymhleth a siapiau yn y gwallt

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1.
cynnal ymgynghoriad cryno a chynhwysfawr gyda'r unigolyn
2.
cadw at eich cyfrifoldebau am iechyd a diogelwch yn unol â deddfwriaeth, rheoliadau, cyfarwyddebau a chanllawiau, i gynnwys:

2.1 cael gwared o ddarnau o flew dros ben a thoriadau o flew wyneb o groen yr unigolyn drwy gydol y gwasanaeth

2.2 codi gwallt sydd dros ben oddi ar y llawr er mwyn osgoi anaf

1. trafod a darganfod amcanion yr unigolyn a'r canlyniadau a ddymunir, er mwyn cael y wybodaeth at gyfer y cynllun gwasanaeth torri gwallt, i gynnwys:

3.1 ystyried strwythurau anatomegol y pen a'r wyneb

3.2 dewisiadau amgen ar gyfer triniaeth

1. gwneud dadansoddiad o flew'r wyneb a'r croen er mwyn penderfynu ar y cynllun gwasanaeth torri blew'r wyneb, i gynnwys:

4.1 **dosbarthiad cyrls gwallt**
***4.2** *nodweddion gwallt**
**4.3 dosbarthiad croen

4.4 cyflwr ar croen y pen

1. edrych ar amrywiaeth o gynlluniau gwallt y gellir eu cyflawni a **siapiau** gyda'r unigolyn gan ddefnyddio cymhorthion gweledol perthnasol

6. cadarnhau a chytuno gyda'r unigolyn, ei fod wedi deall y gwasanaeth torri gwallt arfaethedig i gynnwys:

6.1 gwrth weithredoedd

6.2 adweithiau niweidiol

7. sicrhau cydsyniad gwybodus gan yr unigolyn ar gyfer y gwasanaeth torri gwallt

8. 8.paratoi’r gwallt yn unol â’r **protocol gwasanaeth torri gwallt**

1. dewis **offer a chyfarpar** sy'n addas ar gyfer dosbarthiad cyrls gwallt yr unigolyn er mwyn sicrhau'r edrychiad a ddymunir, i gynnwys:

9.1 trin a defnyddio'r offer a'r cyfarpar mewn modd diogel er mwyn osgoi niwed i'r gwallt a chroen y pen

10. torri gwallt yr unigolyn gan ddefnyddio’r canllawiau er mwyn sicrhau bod pwysau, cymesuredd, cydbwysedd a siap yn cael eu sicrhau i gynnwys:

10.1 cylchdroi eich safle o gwmpas yr unigolyn er mwyn sicrhau cywirdeb y toriad

10.2 addasu eich **technegau torri gwallt** er mwyn creu’r cynllun a’r siapiau yn y gwallt a gytunwyd, yn unol â’r protocol gwasanaeth torri gwallt

11. croes-edrych ar y toriad er mwyn sicrhau dosbarthiad cywir o bwysau, cymesuredd, cydbwysedd a siâp

1. siapio cylchfesurau'r blew gan ddefnyddio technegau torri gwallt, gan gymryd i ystyriaeth:

12.1 y rhimyn gwallt natruiol

12.2 patrymau tŵf y gwallt

1. cwblhau'r gwasanaeth torri gwallt gan sicrhau bod yr unigolyn yn rhydd o ddarnau o flew yn unol â'r protocol torri gwallt
2. monitro iechyd a lles yr unigolyn drwy gydol y gwasanaeth torri gwallt
3. gweithredu'r camau cywir os bydd adwaith niweidiol
4. cwblhau cofnodion gwasanaeth yr unigolyn a'u cadw yn unol â deddfwriaeth data

17. defnyddio ymarfer adfyfyriol i werthuso'r gwasanaeth torri blew'r wyneb a chymryd camau priodol

18. rhoi cyfarwyddiadau a chyngor i'r unigolyn, cyn ac ar ôl y gwasanaeth
    1. cofnodi canlyniad gwasanaeth torri blew'r wyneb a'r gwerthusiad ohono

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*